north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

**05/02/2021**

**Teitl:** Cyllideb Refeniw 2020/21 - Adolygiad Trydydd Chwarter (Rhagfyr 2020)

**Awdur:** Dafydd L. Edwards, Swyddog Cyllid Statudol yr Awdurdod Lletya

## 1. Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu manylion y gwariant a'r incwm gwirioneddol ar gyfer trydydd chwarter blwyddyn ariannol 2020/21 i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, ynghyd â rhagamcaniad o'r alldro blwyddyn lawn yn erbyn ei gyllideb flynyddol.

1.2 Er mwyn gweithredu'n effeithiol, mae angen i'r Cyd-bwyllgor fod yn ymwybodol o'i sefyllfa gwariant a ragamcanir yn erbyn ei gyllideb flynyddol gymeradwy.

## 2. Y Penderfyniad a Geisir

**2.1 Derbyn a nodi Adolygiad Trydydd Chwarter cyd-bwyllgor y Bwrdd Uchelgais ar gyfer 2020/21.**

**2.2 Derbyn cymeradwyaeth y Cyd-bwyllgor i drosglwyddo unrhyw danwariant yn 2020/21 i'r gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi a fydd ar gael yn y dyfodol.**

## 3. Y Rhesymau dros y Penderfyniad

3.1 Nodi tanwariant a ragwelir o £156,255 yn 2020/21. Gellir trosglwyddo unrhyw danwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i'r gronfa wrth gefn sydd wedi'i chlustnodi.

## 4. Cefndir

4.1 Yn ei gyfarfod ar 12 Mehefin 2020, cymeradwyodd y Bwrdd Uchelgais ei gyllideb ar gyfer 2020/21 o £1,673,690. Roedd hyn yn cynnwys £1,468,420 ar gyfer y Swyddfa Rheoli Portffolio, £155,770 ar gyfer gwasanaethau cefnogol y Corff Atebol a £49,500 ar gyfer y Cyd-bwyllgor. Daeth y cyfraniadau ariannol a gyllidebwyd gan gyfraniadau partneriaid, arian grant Cronfa Gymdeithasol Ewropeaidd (ESF), y gronfa wrth gefn sydd wedi'i chlustnodi a grant Bil Trafnidiaeth Gyhoeddus (Cymru).

4.2 Cyflwynwyd yr adolygiad ail chwarter i'r Bwrdd Uchelgais ar 23 Hydref 2020, a rhagwelwyd tanwariant o £78,452 bryd hynny.

4.2 Cyflwynir yr adroddiad alldro a'r adroddiad blynyddol ar gyfer 2020/21 i gyfarfod y Bwrdd Uchelgais ar 14 Mai 2021.

## 5. Gwariant ac incwm yn 2020/21

5.1 Mae Atodiad 1 yn darparu dadansoddiad manwl o'r gwariant a'r incwm gwirioneddol ar gyfer trydydd chwarter blwyddyn ariannol 2020/21, ynghyd â rhagamcaniad o'r alldro blwyddyn lawn yn erbyn ei gyllideb flynyddol.

5.2 Ar ddiwedd y trydydd chwarter, y sefyllfa wirioneddol net oedd gwarged o £121,080 (wedi'i effeithio gan Covid-19).

5.3 Rhagwelir y bydd y sefyllfa alldro net ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2020/21 yn danwariant o £156,255.

<u>Swyddfa Rheoli Portffolio</u>

5.4 Mae rhagamcan o danwariant o £578,773 ar gyfer y Swyddfa Rheoli Portffolio yn 2020/21. Mae hyn wedi cynyddu £151,772 ers y chwarter diwethaf, yn bennaf yn sgil oedi pellach wrth recriwtio i swyddi a gostyngiadau eraill yn ymwneud â Covid-19 dan benawdau gwariant megis costau teithio a chynhaliaeth; hyfforddiant; ymgysylltu a chyfarfodydd; cyfathrebu a chysylltiadau cyhoeddus; cynllunio, datblygu a chefnogi prosiectau.

Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol

5.5 Mae'r rhagamcan o gostau ar gyfer gwasanaethau cefnogol y corff atebol yn adlewyrchu'r ffigyrau a gafodd eu cynnwys yn y gyllideb yn y chwarter diwethaf, ond, gyda rhagor o wybodaeth ar gael, rhagwelir tanwariant net o £22,364 ar gyfer eleni.

Cyd-bwyllgor

5.6 Amcangyfrifir tanwariant o £5,767 ar bennawd cyllideb y Cyd-bwyllgor, sy'n gynnydd bychan ers y chwarter diwethaf.

Cyfraniadau Ariannu

5.7 Yn seiliedig ar ein rhagamcan o wariant ar weithwyr o £596,013 ar gyfer 2020/21, ynghyd â gwariant ar gyfer y cyfnod ôl-weithredol o fis Ebrill 2019 (sydd wedi'i newid o'r cyfnod ôl-weithredol a ragwelwyd yn wreiddiol i ddechrau o fis Gorffennaf 2018), gellid derbyn £561,720 o gyllid grant yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Nid yw'n debygol y byd arnom angen yr incwm o'r gronfa wrth gefn sydd wedi'i chlustnodi yn 2020/21 yn sgil derbyn y grant ESF wedi'i ôl-ddyddio.

5.8 Mae trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth Cymru ar lythyr cynnig grant y Cynllun Twf, er mwyn caniatáu i'r taliad cyntaf o £16m i gael ei ryddhau cyn diwedd mis Mawrth 2021. Gan fydd hwn yn grant cyfalaf a dderbynnir o flaen llaw, bydd yn cael ei ddangos ar 31 Mawrth 2021 fel credydwr ar y Datganiad o falansau yn y Ffurflen Flynyddol, a bydd ar gael i ariannu y rhaglen gyfalaf yn ystod 2021/22.

## 6. Goblygiadau Staffio

6.1 Mae'r amcangyfrif o'r sefyllfa alldro ar gyfer 2020/21 yn adlewyrchu recriwtio sydd wedi digwydd yn y misoedd diwethaf, gydag unrhyw recriwtio pellach yn debygol o ddechrau yn gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd. Gweler strwythur staffio cyfredol y Swyddfa Rheoli Portffolio yn Atodiad 2.

## 7. Ymgynghoriadau a gynhaliwyd

7.1 Cyflwynwyd Atodiad 1, ynghyd â chrynodeb o gynnwys yr adroddiad hwn, i'r Grŵp Gweithredol ar 15 Ionawr 2021.

## 8. Atodiad

Atodiad 1 - Cyllideb y Bwrdd Uchelgais 2020/21 - Adolygiad Trydydd Chwarter (Rhagfyr 2020).

Atodiad - Strwythur staffio y Swyddfa Rheoli Portffolio.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Corff Atebol:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**ii. Swyddog Cyllid Statudol - Corff Atebol:**

Awdur yr adroddiad hwn.


**Cyllideb y Bwrdd Uchelgais 2020/21 - Adolygiad Trydydd Chwarter (Rhagfyr 2020).** **Atodiad 1**

| | Cyllideb Sylfaenol | Trosglwyddiadau unwaith ac am byth | Cyfanswm Cyllideb | Ebrill - Rhagfyr 2020 | Amcangyfrif o'r Sefyllfa Derfynol | Gor / (Tan)wariant |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** |
| **Swyddfa Rheoli Portffolio** | | | | | | |
| Gwariant Gweithwyr (Cyflog, Y.G. a Blwydd-dal) | 933,740 | | 933,740 | 352,419 | 596,013 | (337,727) |
| Hysbysebu ac Asesu Ymgeiswyr | | 10,000 | 10,000 | 11,644 | 16,644 | 6,644 |
| Teithio a Chynhaliaeth | 20,000 | | 20,000 | 0 | 0 | (20,000) |
| Hyfforddiant | 10,000 | 10,000 | 20,000 | 1,125 | 5,000 | (15,000) |
| Ymgysylltu a Chyfarfodydd | 15,000 | | 15,000 | 99 | 99 | (14,901) |
| Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus | 37,530 | 62,470 | 100,000 | 14,050 | 35,000 | (65,000) |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 10,000 | 10,000 | 20,000 | 9,232 | 15,000 | (5,000) |
| Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol | 42,290 | | 42,290 | 42,287 | 42,287 | (3) |
| Eiddo | 17,500 | | 17,500 | 10,070 | 17,500 | 0 |
| Cynllunio, Datblygu a Chefnogi Prosiectau | | 180,000 | 180,000 | 92,120 | 140,783 | (39,217) |
| Trafnidiaeth | | 109,890 | 109,890 | 14,761 | 21,321 | (88,569) |
| **Cyfanswm Swyddfa Rheoli Portffolio** | **1,086,060** | **382,360** | **1,468,420** | **547,807** | **889,647** | **(578,773)** |
| **Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol** | | | | | | |
| Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid | 98,110 | | 98,110 | 0 | 68,237 | (29,873) |
| Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro) | 20,250 | | 20,250 | 0 | 20,250 | 0 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 26,060 | | 26,060 | 21,876 | 37,580 | 11,520 |
| Technoleg Gwybodaeth | 11,350 | | 11,350 | 0 | 7,339 | (4,011) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol** | **155,770** | | **155,770** | **21,876** | **133,406** | **(22,364)** |
| **Cyd-bwyllgor** | | | | | | |
| Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol | 18,000 | | 18,000 | 14,933 | 33,000 | 15,000 |
| Ymgynghoriaeth Trysorlys | 10,000 | | 10,000 | 8,975 | 8,975 | (1,025) |
| Ffi Archwilio Allanol | 1,500 | | 1,500 | (511) | 1,000 | (500) |
| Bwrdd Cyflawni Busnes | 20,000 | | 20,000 | 758 | 758 | (19,242) |
| **Cyfanswm Cyd-bwyllgor** | **49,500** | | **49,500** | **24,155** | **43,733** | **(5,767)** |
| **Cyfanswm Gwariant** | **1,291,330** | **382,360** | **1,673,690** | **593,838** | **1,066,786** | **(606,904)** |

**Cyllideb y Bwrdd Uchelgais 2020/21 - Adolygiad Trydydd Chwarter (Rhagfyr 2020).** **Atodiad 1**

| | Cyllideb Sylfaenol | Trosglwyddiadau unwaith ac am byth | Cyfanswm Cyllideb | Ebrill - Rhagfyr 2020 | Amcangyfrif o'r Sefyllfa Derfynol | Gor / (Tan)wariant |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** |
| **Cyfraniadau Ariannu** | | | | | | |
| **Cyfraniadau Partneriaid** | | | | | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (50,000) | | (50,000) | (50,000) | (50,000) | 0 |
| Cyngor Sir Ddinbych | (50,000) | | (50,000) | (50,000) | (50,000) | 0 |
| Cyngor Sir y Fflint | (50,000) | | (50,000) | (50,000) | (50,000) | 0 |
| Cyngor Gwynedd | (50,000) | | (50,000) | (50,000) | (50,000) | 0 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (50,000) | | (50,000) | (50,000) | (50,000) | 0 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (50,000) | | (50,000) | (50,000) | (50,000) | 0 |
| Prifysgol Bangor | (25,000) | | (25,000) | (25,000) | (25,000) | 0 |
| Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | (25,000) | | (25,000) | (25,000) | (25,000) | 0 |
| Coleg Cambria | (25,000) | | (25,000) | (25,000) | (25,000) | 0 |
| Grŵp Llandrillo Menai | (25,000) | | (25,000) | (25,000) | (25,000) | 0 |
| **Cyfraniadau Partneriaid - Eraill** | | | | | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (40,000) | | (40,000) | (40,000) | (40,000) | 0 |
| Cyngor Sir Ddinbych | (40,000) | | (40,000) | (40,000) | (40,000) | 0 |
| Cyngor Sir y Fflint | (40,000) | | (40,000) | (40,000) | (40,000) | 0 |
| Cyngor Gwynedd | (40,000) | | (40,000) | (40,000) | (40,000) | 0 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (40,000) | | (40,000) | (40,000) | (40,000) | 0 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (40,000) | | (40,000) | (40,000) | (40,000) | 0 |
| Grant Bil Trafnidiaeth Gyhoeddus (Cymru) | | (109,890) | (109,890) | (4,781) | (21,321) | 88,569 |
| Cyllid Blaenoriaeth 5 y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd | (651,330) | | (651,330) | (70,137) | (561,720) | 89,610 |
| Cronfa Wrth Gefn wedi'i Chlustnodi | | (272,470) | (272,470) | 0 | 0 | 272,470 |
| **Cyfanswm Incwm** | **(1,291,330)** | **(382,360)** | **(1,673,690)** | **(714,918)** | **(1,223,041)** | **450,649** |
| **Gor / (Tan) wariant Net** | **0** | **0** | **0** | **(121,080)** | **(156,255)** | **(156,255)** |

# Swyddfa Rheoli Portffolio | Portfolio Management Office




Swyddi Presennol
*Current Posts*

Swyddi wedi penodi ond heb gychwyn yn y swydd
*Appointed but not yet started*